**Grade Descriptions: English and Welsh / Disgrifiadau Gradd: Saesneg a Cymraeg**

**Grade Description** – G6

What your organisation will expect?

**A) Professional Roles**

- You will be a Principal/Professional Advisor for a specific subject/area, on behalf of the organisation. (This may include a professional qualification or being a member of a chartered profession).

**B) Generalist Roles**

- You will have experience in delivering large scale projects. You will lead/manage/ have overarching responsibilities for multiple work-streams (at least four).
- You will be able to deal with complex problems, displaying high levels of judgement with limited precedent/guidance, using creative and innovative thinking to develop new approaches to deliver better outcomes for Wales.
- You will have a detailed knowledge of the organisation together with a clear working understanding of the external operating environment. You will be politically aware and will consider the long-term implications of policy and other changes, interpreting trends and developments, and produce future policies and organisational strategies in the light of these.

What your team will expect?

- You will be a strong leader with experience of building and developing high performing teams, inspiring and motivating in order to deliver results through others. You will be able to build co-operation between teams and provide direction across teams.
- You will have a demonstrable understanding of diversity, inclusion and equality of opportunity, promoting a culture of inclusion, creating an environment where individuals feel safe to challenge, share ideas and express concerns and embracing new ways of working.
- You will create a culture of continuous self-development, role-modelling self-learning and development, whilst encouraging others to take all opportunities available. You will ensure ensuring that opportunities are available to all staff regardless of their background, supporting everyone to reach their full potential.

What your stakeholders will expect?

- You will establish, build and maintain effective relationships or partnerships with key organisational stakeholders (e.g. Ministers and senior employees in the organisation and external organisations, often with conflicting views).

- You will have high level of representational, influencing, interpersonal and organisational skills together with the ability to negotiate effectively with a range of contacts and/or relationships (e.g. directly advising Ministers and/or the most senior officers externally, acting as a primary/lead contact on behalf of the organisation).
- You will work with a high level of autonomy, demonstrating an ability to take/make decisions (with significant risk/impact) on behalf of the organisation whilst balancing the impact/risk associated with those decisions.

**Disgrifiad Gradd –** G6

Beth fydd eich sefydliad yn ei ddisgwyl?

Rolau Proffesiynol

- Byddwch yn Brif Gynghorydd neu'n Gynghorydd Proffesiynol ar gyfer pwnc/maes penodol, ar ran y sefydliad. (Gall hyn gynnwys cymhwyster proffesiynol neu aelodaeth o broffesiwn siartredig).

Rolau Cyffredinol

- Bydd gennych brofiad o gyflawni prosiectau ar raddfa fawr. Byddwch yn arwain neu'n rheoli nifer o ffrydiau gwaith (pedair o leiaf) neu bydd gennych gyfrifoldeb trosfwaol drostynt.
- Byddwch yn gallu delio â phroblemau cymhleth, gan ddangos crebwyll sylweddol heb fawr ddim cynsail/arweiniad, a defnyddio syniadau creadigol ac arloesol i ddatblygu dulliau newydd o sicrhau canlyniadau gwell i Gymru.
- Bydd gennych adnabyddiaeth drylwyr o'r sefydliad, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol glir o'r amgylchedd gweithredu allanol. Byddwch yn ymwybodol yn wleidyddol a byddwch yn ystyried goblygiadau hirdymor newidiadau polisi a newidiadau eraill, gan ddehongli tueddiadau a datblygiadau, ac yn llunio polisïau a strategaethau sefydliadol ar gyfer y dyfodol ar sail y rhain.

Beth fydd eich tîm yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn arweinydd cryf sydd â phrofiad o adeiladu a datblygu timau sy'n perfformio'n dda, a byddwch yn ysbrydoli ac ysgogi er mwyn cyflawni canlyniadau drwy eraill. Byddwch yn gallu meithrin cydweithrediad rhwng timau a darparu cyfeiriad ar draws timau.
- Bydd gennych ddealltwriaeth amlwg o amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal, a byddwch yn hybu diwylliant o gynhwysiant, gan greu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo'n ddiogel i herio, rhannu syniadau a mynegi pryderon, a chan groesawu ffyrdd newydd o weithio.
- Byddwch yn creu diwylliant o hunanddatblygu parhaus ac yn dangos esiampl o ran dysgu a datblygu personol, gan annog eraill i fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael. Byddwch yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r holl staff, beth bynnag fo'u cefndir, gan gefnogi pawb i wireddu eu potensial llawn.

Beth fydd eich rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn sefydlu, yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd neu bartneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid sefydliadol allweddol (e.e. Gweinidogion ac uwch-staff yn y sefydliad ac mewn sefydliadau allanol, a fydd yn aml yn arddel safbwyntiau croes).
- Bydd eich sgiliau cynrychioli a dylanwadu a'ch sgiliau rhyngbersonol a threfnu yn dda iawn, a byddwch yn gallu negodi'n effeithiol ag ystod o gysylltiadau a/neu berthnasoedd (e.e. cynghori Gweinidogion a/neu'r swyddogion allanol uchaf, gan weithredu fel prif gyswllt/cyswllt arweiniol ar ran y sefydliad).

Byddwch yn gweithio ag elfen helaeth o annibyniaeth ac yn dangos gallu i wneud penderfyniadau (sydd â risg/effaith sylweddol) ar ran y sefydliad, gan bwyso a mesur yr effaith/risg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hynny.

**Grade Description** – G7

<u>What the organisation will expect</u>

- You will have the ability to work under pressure, be flexible, proactive and self-motivated. You will have the ambition to lead and motivate a team to successfully deliver within a challenging, pressured and fast-paced environment.
- You will be able to take an innovative approach, looking for opportunities to do things differently and responsive enough to adapt and develop new options as things change. You will be adaptable, flexible, open to, and accepting of change affecting you and your area of work and deal with that change efficiently and professionally.
- As an effective Civil Servant, you will have an understanding of the political landscape and the role that Ministers play in setting the agenda for your business area; an understanding of how to get things done with regard to governance and financial management processes; an ability to manage risk, making informed decisions with little or no guidance; and be able to clearly communicate at all levels, including with senior stakeholders and Ministers.

<u>What your team will expect</u>

- You will value diversity and inclusion, creating an environment where individuals feel safe to challenge, share ideas and express concerns
- You will be a role model, who is able to motivate and inspire others, establish a vision and bring others on board, providing clear direction and priorities for the team, ensuring that every member understands their contribution to achieving objectives, and feel capable of fulfilling their role.
- You will support the development of others, demonstrating an understanding of the importance of learning, planning for and providing opportunities and encouragement for individuals to develop, as well as investing time for your own development

<u>What key stakeholders will expect</u>

- You will be able to use sound judgement, evidence and knowledge to provide credible advice and guidance to both internal and external stakeholders.

- You will understand the importance of building and maintaining constructive relationships, both within and outside Welsh Government. You will have strong influencing skills and the ability to build collaborative relationships that both challenge with support, and build trust and mutual respect across organisational boundaries

- You will be able to use creative thoughts to develop recommendations, and take advantage of opportunities to work collaboratively across boundaries

**Disgrifiad Gradd** – G7

Beth fydd y sefydliad yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn meddu ar y gallu i weithio dan bwysau, a byddwch yn hyblyg, yn rhagweithiol ac yn hunanysgogol. Bydd gennych yr uchelgais i arwain a chymell tîm er mwyn cyflawni gwaith yn llwyddiannus mewn amgylchedd heriol, llawn pwysau, sy'n symud yn gyflym.
- Byddwch yn gallu gweithio mewn ffordd arloesol, gan chwilio am gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol a chan fod yn ddigon ymatebol i addasu a datblygu opsiynau newydd wrth i bethau newid. Byddwch yn hyblyg ac yn barod i addasu, yn agored i newidiadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch maes gwaith, ac yn delio â'r newid hwnnw'n effeithlon ac yn broffesiynol.
- Fel Gwas Sifil effeithiol, byddwch yn deall y tirwedd gwleidyddol a rôl y Gweinidogion o ran pennu'r agenda ar gyfer eich maes gwaith; byddwch yn deall sut mae cyflawni pethau o ran prosesau llywodraethiant a rheolaeth ariannol; byddwch yn meddu ar y gallu i reoli risgiau, gan wneud penderfyniadau gwybodus heb ddim neu fawr ddim arweiniad; a byddwch yn gallu cyfathrebu'n glir ar bob lefel, gan gynnwys ag uwch-randdeiliaid a Gweinidogion.

Beth fydd eich tîm yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant, gan greu amgylchedd lle bydd unigolion yn teimlo'n ddigon ddiogel i herio, rhannu syniadau a mynegi pryderon.
- Byddwch yn dangos esiampl ac yn gallu cymell ac ysbrydoli pobl eraill, pennu gweledigaeth ac ennyn ymrwymiad pobl eraill iddi, a darparu cyfeiriad a blaenoriaethau clir i'r tîm, gan sicrhau bod pawb yn deall beth yw eu cyfraniad at wireddu'r amcanion ac yn teimlo'n abl i gyflawni eu rôl.
- Byddwch yn cynorthwyo eraill i ddatblygu ac yn dangos eich bod yn deall pwysigrwydd dysgu, gan gynllunio a darparu cyfleoedd ac anogaeth i unigolion allu datblygu, yn ogystal â buddsoddi amser yn eich datblygiad eich hun.

Beth fydd rhanddeiliaid allweddol yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn gallu defnyddio crebwyll cadarn, tystiolaeth a gwybodaeth i roi cyngor ac arweiniad credadwy i randdeiliaid mewnol ac allanol fel ei gilydd.

- Byddwch yn deall pwysigrwydd meithrin a chynnal perthnasoedd adeiladol, oddi mewn ac oddi allan i Lywodraeth Cymru. Bydd gennych sgiliau dylanwadu cryf a'r gallu i feithrin perthnasoedd cydweithredol sy'n herio'n adeiladol a hefyd yn ennyn ymddiriedaeth a chyd-barch ar draws ffiniau sefydliadol.
- Byddwch yn gallu defnyddio syniadau creadigol i lunio argymhellion, gan fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar draws ffiniau.

**Grade Description** - SEO

What the organisation will expect

- You will be responsible for managing defined areas of work using your specialist knowledge or experience to exercise sound judgement when interpreting complex or conflicting information weighing up all evidence to produce innovative solutions to problems.
- You will be adaptable, flexible, open to, and accepting of change affecting you and your area of work and deal with that change efficiently and professionally.
- You will show political awareness and an understanding of the political landscape when considering the impact of your decision and work on the wider business area and when formulating proposals for Senior Managers and Ministers.

What your team will expect

- You may be required to manage a team setting clear direction on achieving their objectives. You will support team members in their work such as complex areas of work; work allocation and prioritisation; performance management; training and development; mentoring and coaching.
- You will value diversity and inclusion, creating an environment where individuals feel safe to challenge, share ideas and express concerns adopting an inclusive leadership style.
- You will be responsible for developing, implementing and maintaining systems or processes ensuring excellence or value for money.

What key stakeholders will expect

- You will take the lead in creating, building and maintaining constructive relationships at all levels.
- You will be able to tailor and adapt your communication style (written and oral) to advise, guide, influence and persuade internal and external stakeholders as appropriate.

**Disgrifiad Gradd** – SEO

Beth fydd y sefydliad yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn gyfrifol am reoli meysydd gwaith diffiniedig gan roi'ch gwybodaeth neu'ch profiad arbenigol ar waith er mwyn defnyddio crebwyll cadarn wrth ddehongli gwybodaeth gymhleth neu anghyson, gan bwyso a mesur yr holl dystiolaeth i greu atebion arloesol i broblemau.
- Byddwch yn hyblyg ac yn barod i addasu, yn agored i newidiadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch maes gwaith, ac yn delio â'r newid hwnnw'n effeithlon ac yn broffesiynol.
- Byddwch yn dangos ymwybyddiaeth wleidyddol a dealltwriaeth o'r tirwedd gwleidyddol wrth ystyried effaith eich penderfyniad a'ch gwaith ar y maes busnes ehangach ac wrth lunio cynigion ar gyfer uwch-reolwyr a Gweinidogion.

Beth fydd eich tîm yn ei ddisgwyl?

- Mae'n bosibl y bydd gofyn ichi reoli tîm, gan bennu cyfeiriad clir ar gyfer cyflawni ei amcanion. Byddwch yn cefnogi aelodau'r tîm yn eu gwaith, megis meysydd gwaith cymhleth; dyrannu a blaenoriaethu gwaith; rheoli perfformiad, hyfforddi a datblygu; mentora a choetsio.
- Byddwch yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant, gan greu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo y gallant herio, rhannu syniadau a mynegi pryderon yn ddiogel, gan ddefnyddio dull cynhwysol o arwain.
- Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a chynnal systemau neu brosesau, gan sicrhau rhagoriaeth neu werth am arian.

Beth fydd rhanddeiliaid allweddol yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn arwain y gwaith o greu, adeiladu a chynnal perthnasoedd adeiladol ar bob lefel.
- Byddwch yn gallu teilwra ac addasu eich arddull gyfathrebu (ar bapur ac ar lafar) i gynghori, tywys, dylanwadu a darbwyllo rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.

**Grade Description** - HEO

What the organisation will expect

- Ability to manage own and others work and prioritise to ensure that objectives are met to time and to standard, using own initiative and decision making, managing risks as appropriate.

- The ability to solve problems and make operational/policy decisions and/or recommendations by choosing between a number of options which may involve researching, organising and analysing facts and data

- You will be adaptable, flexible, open to, and accepting of change affecting you and your area of work and deal with that change efficiently and professionally.

What your team will expect

- Work independently on day-to-day issues which may include providing advice to more senior grades and supporting policy, digital, legislation or operational development work; whilst being the lead official to engage with a wide-range of stakeholders both internally and externally.
- Line management of individuals or a team. Management responsibilities may include supporting team members on more difficult cases, managing work allocation and prioritisation. Responsibility for performance management, coaching, mentoring and development of staff from all backgrounds to ensure they are able reach their full potential, helping to create a culture of inclusion; making sure that any development opportunities are accessible and inclusive for all. You are proactive in exploring your own developmental needs and take action when required

What key stakeholders will expect

- Provide sound judgement with the ability to interpret information where issues are complex or conflicting with the ability to weigh up a number of factors to produce constructive ideas and solutions.
- Required to communicate information, to provide advice to senior colleagues on the effects of policy or operational changes and influence outcomes.
- Ability to grow strong professional relationships with internal and external stakeholders, effectively collaborating to share information, resources and support.

Disgrifiad Gradd – **HEO**

Beth fydd y sefydliad yn ei ddisgwyl?

- Y gallu i reoli'ch llwyth gwaith eich hun ac eraill a blaenoriaethu i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni'n brydlon ac yn unol â'r safon, gan fod yn flaengar, gwneud penderfyniadau a rheoli risgiau fel bo'n briodol.
- Y gallu i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau gweithredol/polisi a/neu argymhellion drwy ddewis rhwng nifer o opsiynau a allai gynnwys ymchwilio i ffeithiau a data, eu trefnu a'u dadansoddi.
- Byddwch yn hyblyg ac yn barod i addasu, yn agored i newidiadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch maes gwaith, ac yn delio â'r newid hwnnw'n effeithlon ac yn broffesiynol.

Beth fydd eich tîm yn ei ddisgwyl?

- Gweithio'n annibynnol ar faterion o ddydd i ddydd, a allai gynnwys rhoi cyngor i unigolion mewn swyddi ar raddau uwch a chefnogi gwaith polisi, digidol,

deddfwriaeth neu ddatblygu sefydliadol; a bod yn swyddog arweiniol i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yn fewnol ac yn allanol.

- Rheoli llinell i unigolion neu dîm. Gall cyfrifoldebau rheoli gynnwys cynorthwyo aelodau'r tîm ag achosion anoddach, rheoli dyraniad gwaith a blaenoriaethu. Bod yn gyfrifol am reoli perfformiad, coetsio, mentora a datblygu staff o bob cefndir i sicrhau eu bod yn gallu gwireddu eu potensial llawn, gan sicrhau bod unrhyw gyfleoedd datblygu yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb. Rydych yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried eich anghenion datblygu eich hun ac yn gweithredu pan fo angen.

<u>Beth fydd rhanddeiliaid allweddol yn ei ddisgwyl?</u>

- Darparu crebwyll cadarn a'r gallu i ddehongli gwybodaeth os yw materion yn gymhleth neu'n groes i'w gilydd, ynghyd â'r gallu i bwyso a mesur nifer o ffactorau i greu syniadau a datrysiadau adeiladol.
- Bydd gofyn cyfleu gwybodaeth, i roi cyngor i uwch-gydweithwyr ar effeithiau polisi neu newidiadau gweithredol a dylanwadu ar ganlyniadau.

Y gallu i feithrin perthynas broffesiynol cadarn â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gydweithio'n effeithiol i rannu gwybodaeth, adnoddau a chymorth.

**Grade Description** - EO

<u>What the organisation will expect</u>

- You will be able to work independently on day-to-day issues, providing advice to more senior grades and supporting departmental priorities.
- You will be flexible, pro-active and self-motivated, working across teams when necessary to deliver Organisational business objectives; understanding your areas of responsibility and display awareness of the wider impact of your actions.
- You will be adaptable, flexible, open to, and accepting of change affecting you and your area of work and deal with that change efficiently and professionally.

<u>What your team will expect?</u>

- You will be able to manage your own workload and priorities to ensure that objectives are met on time and to a high quality using own initiative and decision making.
- You will invest time in your own development, acting as a role model and supporting the development of others. Providing opportunities and encouragement for individuals to develop, sharing your knowledge and experience
- You will manage/supervise, develop, motivate and support diverse group of staff and colleagues, making best use of staff and other resources. Actively support and include all staff and colleagues, treating them fairly and respecting everyone as individuals.

<u>What your stakeholders will expect?</u>

- You will establish professional relationships with a diverse group of internal and external stakeholders in order to achieve results.
- You will communicate effectively both orally and in writing, using appropriate communication channels.

Disgrifiad Gradd – **EO**

Beth fydd y sefydliad yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn gallu gweithio'n annibynnol ar dasgau o ddydd i ddydd, gan roi cyngor i unigolion mewn swyddi ar raddau uwch a chefnogi blaenoriaethau'r adran.
- Byddwch yn unigolyn hyblyg, rhagweithiol a brwdfrydig, a fydd yn gweithio ar draws timau os oes angen er mwyn cyflawni amcanion busnes y sefydliad; gan ddeall eich meysydd cyfrifoldeb a dangos ymwybyddiaeth o effaith ehangach yr hyn y byddwch chi'n ei wneud.
- Byddwch yn hyblyg ac yn barod i addasu, yn agored i newidiadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch maes gwaith, ac yn delio â'r newid hwnnw'n effeithlon ac yn broffesiynol

Beth fydd eich tîm yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn gallu rheoli'ch llwyth gwaith a'ch blaenoriaethau i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni'n brydlon ac i safon uchel, gan fod yn flaengar a gwneud penderfyniadau.
- Byddwch yn buddsoddi amser yn eich datblygiad personol, gan ddangos esiampl a helpu pobl eraill i ddatblygu. Byddwch yn rhoi cyfle ac anogaeth i unigolion ddatblygu, gan rannu'ch gwybodaeth a'ch profiad.
- Byddwch yn rheoli/goruchwylio, datblygu, cymell a chefnogi grwpiau amrywiol o staff a chydweithwyr, gan wneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau eraill. Byddwch yn gwneud ymdrech i gefnogi a chynnwys yr holl staff a chydweithwyr, gan eu trin yn deg a pharchu pawb fel unigolion.

Beth fydd rhanddeiliaid allweddol yn ei ddisgwyl?

- Byddwch yn sefydlu perthynas waith broffesiynol â grŵp amrywiol o randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau canlyniadau.
- Byddwch yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu priodol.